Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD MERCHER, 14 MEHEFIN 2023**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD **AML-LEOLIAD** Y **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **SIAMBR - NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN. SA31 1JP AC O BELL** AM **10.00 YB, DYDD MERCHER, 21AIN MEHEFIN, 2023** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

**GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-**
**HTTPS://CARMARTHENSHIRE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Kevin Thomas** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224027** |
| **E-bost:** | **kjthomas@sirgar.gov.uk** |


Wendy Walters Prif Weithredwr*, Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** | |
| 2. | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| 3. | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.** | |
| 4. | **CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD, AELODAU'R CABINET NEU'R PRIF WEITHREDWR (OS OES RHAI)** | |
| 5. | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR:** | |
| | **5 .1 10FED MAI 2023** | 5 - 10 |
| | **5 .2 24AIN MAI 2023** | 11 - 22 |
| 6. | **ARGYMHELLION DRAFFT - ADOLYGIAD CYMUNEDOL YN SIR GAERFYRDDIN** | 23 - 32 |
| 7. | **YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN Y MATERION CANLYNOL:-** | |
| | **7 .1 POLISI ENWI STRYDOEDD A RHIFO EIDDO** | 33 - 74 |
| 8. | **DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y** | |
| | **8 .1 24AIN EBRILL 2023** | 75 - 86 |
| | **8 .2 22AIN MAI 2023** | 87 - 96 |
| 9. | **YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-** | |
| | **9 .1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORWYR ALUN LENNY AC EDWARD THOMAS** | |


**“CYLLID BRYS AR GYFER TYLLLAU YN Y FFYRDD**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn datgan bod cyflwr dirywiol llawer o ffyrdd yn ein sir yn rhan o broblem acíwt ledled y DU a achosir gan dangyllido awdurdodau lleol yn y tymor hir gan lywodraethau Ceidwadol olynol y DU ers 2010.

Mae'r Cyngor yn nodi bod y £200m ychwanegol a ddyrannwyd yn ddiweddar gan San Steffan tuag at y 'gronfa dyllau' yn ffracsiwn o'r amcangyfrif o £14b sydd ei angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith atgyweirio ffyrdd lleol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Cyngor hefyd yn nodi gyda braw adroddiad diweddar gan Gynghrair Diwydiant Asphalt sy'n honni bod gan bron i un rhan o bump o'r ffyrdd a reolir gan gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr ddisgwyliad oes o lai na phum mlynedd, a bydd angen eu tynnu, eu hatgyweirio a'u hailwynebu.

Mae'r cyngor hwn felly yn galw ar:

- Llywodraeth y DU i ddechrau cynllunio nawr sut i ddyrannu o leiaf £14b yn ei chyllideb nesaf fel mesur brys i alluogi cynghorau lleol i fynd i'r afael â'r dirywiad difrifol hwn yn ein seilwaith, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, cyn y gaeaf nesaf;
- Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr holl gyllid a ddyrennir tuag at y hyn drwy fformiwla Barnett yn cael ei drosglwyddo i gynghorau sir, ac i ddargyfeirio peth o'r arian a arbedir drwy ddileu cynlluniau ffyrdd newydd yng Nghymru yn ddiweddar i lawr i'r cynghorau i'w galluogi i gynyddu'r gwaith o atgyweirio'r ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd presennol".

## 10. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

### 10 .1 CWESTIWN GAN CHARLIE EVANS I'R CYNGHORYDD EDWARD THOMAS - YR AELOD CABINET DROS WASANAETHAU TRAFNIDIAETH, GWASTRAFF A SEILWAITH.

"Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn dod â'r Cynllun Argyfwng Bysiau i ben ar 24 Gorffennaf. Mae corff y diwydiant, Coach and Bus Operators Cymru, sy'n cynrychioli cwmnïau bach, wedi mynegi pryderon yn y gorffennol y byddai 65% i 100% o'r gwasanaethau'n cael eu torri.

Byddai hyn yn cael effaith ddinistriol ar ein cymunedau, gan olygu na fyddai ein trigolion mwyaf agored i niwed yn gallu defnyddio canol ein trefi a'n pentrefi mor rhwydd ac na fyddai gweithwyr yn gallu cyrraedd y gwaith mor rhwydd, a byddai'n cynyddu traffig ceir a thagfeydd yn ein cymunedau. Ymddengys fod hyn yn hollol groes i strategaethau net sero a thrafnidiaeth gyhoeddus Cytundeb Cydweithio Llafur a Phlaid Cymru.

Pa waith cynllunio - ariannol, gweithredol a logistaidd - y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei wneud i sicrhau bod gennym yr un lefel o wasanaethau bysiau ledled Sir Gaerfyrddin ar ôl 24 Gorffennaf?"

## 11. CWESTIYNAU GAN AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

## 12. COFNODION ER GWYBODAETH YN UNIG:-

### 12 .1 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 27 EBRILL 2023

### 12 .2 PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL - 3 MAI 2023

### 12 .3 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG - 5 MAI 2023

### 12 .4 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO - 15 MAI 2023

### 12 .5 PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID YR HINSAWDD - 15 MAI 2023

### 12 .6 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 25 MAI 2023